"RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD"

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—

Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D., Trebanos

"PROFWCH BOB PETH, DELIWCH YR HYN SYDD DDA"

CYFROL XLVIII
1948

LLANDYSUL:
ARGRAFFWYD GAN J. D. LEWIS A'I FEIBION, CYF., GWASG GOMER

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1948-01_48_1

CYNNWYS

"A phoen ni bydd mwyach," 1.
Adolygiadau,—
A history of Western Philosophy, 131.
Hanes Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed y Cymer, 34.
Llyfr Jona, 160.
Perl ym mhen llyffant, 93.
Revelation and Reason, 83.
Anfarwoldeb, 9, 60, 87.
Anrhydeddu Gweinidog, 178.
Argraffiadau Bore Oes, 183.
Arholiad 1947, 28.
Arholiad yr ysgolion Sul 1947, 14.

Barddoniaeth,—
Atgofion bore oes ar lannau Teifi, 64.
Carol haf, 89.
Dydd Saboth yw, 142.
Englynion coffa, 47.
Er cof, 176.
Gardd yn Oldham, 88.
Hydref, Yr, 174.
Nos, Y, 16.
Siw a Miw, 48.
Tractor, Y, 154.
Ymryson y bysedd, 96.
Bod yn Undodwr, 49.
Brithgofion, 39.

Capel Penrhiw, 161.
Cipdrem ar anniddigrwydd ynglyn â'r eglwys cyn ei diwygio, 153.
Cofiaf, 54.
Cofio dau gôr, 122.
Cofnodion y pwyllgor, 80, 141, 184.
Crefydd ac ofergoel, 100.
Crud y Cymry, 61.
Cwrdd dathlu canmlwydd Rhydygwin, 137.
Cynghrair y gwragedd, 90.
Cyflwr yr Almaen heddiw, 11.
Cyflwyno fy Olynydd, 177.
Cymanfa ganu Morgannwg, 92.
Cyrddau'r Gymdeithas, 137, 184.
Cyrddau'r Pasg, 80.

Dadorchuddio meini coffa, 72.
Datguddiad a Rheswm, 83.
Dewi Hiraddug, 97.
Diwrnod oddicartref, 135.

Eisteddfod Genedlaethol 1948, 129.

Freinlen fawr a'i gwaith, Y, 155.
Fy mhererindod, 164.

Gogoniant gardd, 126.
Gohebiaethau—
At bobl ifanc Sir Aberteifi, 29.
Teyrnged o barch i'r Athro M. B. Owen, 94.
"Gneud Plwm Pwding," 185.
Gwneud y gorau o'r gwaethaf, 17.
Gymdeithas Gyffredinol, Y, 65, 81, 107, 186.

Hanes Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed y Cymer, 34.
Hen athrofa Pontsian, 156.
Henffych wanwyn mwyn, 38.
Henry Jones, Syr, 36.

Jedidiah Richards, 52.
Job Davies (Rhydderch Farfgoch) a'i gylch, 145.

I ble? Myfyrdodau lleygwr, 103.

Llyfr newydd Bertrand Russell, 131.
Llythyr at y golygydd, 6.

Mab enwoca'r India, 33.
Maes llafur yr ysgol Sul, 25.
Marwgofion, 30, 41, 62, 77, 95, 108, 127, 143, 172, 187.
Miwsig, 124.
Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth, Y, 22, 50, 85, 121, 169, 181.
Myfyrdod dechrau blwyddyn, 8.

Na, dim cymaint a basned o gawl, 55.
Nodion yr eglwysi, 16, 32, 46, 64, 79, 95, 109, 128, 144, 173, 191.

Olyniaeth apostolaidd, Yr, 158.

Pregeth, 68.
Pregeth yr Esgob Latimer, 170.
Priodasau, 10, 62, 77, 94, 108, 143, 171, 187.

Rhedeg y râs, 57.

Swn, 124.

Testun od, 24.

"Yn nes, fy Nuw, i ti," 113.
Yng Nghwm Nedd slawer dydd, 116.
Ymryson y bysedd, 4.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlviii. IONAWR, 1948. Rhif 1.

"A phoen ni bydd mwyach."

Gan y Parchedig E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul.

Yr wyf am dalu teyrnged fechan, seml, ond didwyll i un o arwyr mawr y byd. Can mlynedd yn ôl, ar Ragfyr 14, 1847, darganfu'r dyn mawr hwn gyfrinach. Pwy ydoedd? Nid milwr na morwr llwyddiannus ydoedd. Nid athronydd, na diwinydd, na gwleidyddwr ydoedd. Nid un o dywysogion masnach a diwydiant ydoedd. Ac eto gosododd yr hollfyd, chwi a fi a phawb arall, dan ddyled enfawr iddo. Enw y gŵr mawr hwn yw James Simpson, a'i gampwaith oedd darganfod sut i ddefnyddio clorofform er mwyn gosod y claf mewn cyflwr o gysgadrwydd, neu anaesthesia, tra byddai dan driniaeth y llaw-feddyg. Cyn dyddiau *ether* a chlorofform rhaid oedd clymu'r claf wrth yr *operating table* rhag i'r poenau arteithiol ei orfodi ef i wrthod y driniaeth ddieflig. Swn ofnadwy sgrechfeydd y dioddefydd a glywid yn yr ysbyty cyn dyddiau'r anaesthetig. Tynged druenus ydoedd syrthio i ddwylo'r llawfeddyg yn yr hen ddyddiau. O'i gymharu ag *operation* y pryd hwnnw yr oedd marw yn beth melys.

Nid Simpson, cofier, a ddarganfu clorofform, ond ef a ddarganfu'r ffordd i'w ddefnyddio fel anaesthetig, fel moddion i osod y claf mewn ystad o ddideimladrwydd fel na theimlai boen mwyach.

Ganwyd Simpson yn yr Alban yn 1811. Gwelir felly nad oedd ddeugain oed pan gyflawnodd ei waith mawr. Yr oedd yn un o deulu lluosog heb lawer o adnoddau cysur yn ei gartref. Pobydd oedd ei dad. Yn grwtyn dangosodd James, fel y gelwid ef, awydd gref at wybodaeth. Meddai ar ryw gywreinrwydd rhyfedd; mynnai wybod *paham* am bopeth. Penderfynodd ei dad a'i fam oherwydd ei gywreinrwydd roddi iddo'r addysg orau posibl, a dymunent iddo fod yn feddyg. Ac yntau eto yn grwt, bu farw ei rieni. Ond gofalodd ei frawd hynaf, Sandy, amdano, a bu ei chwaer, Mary, yn ail fam iddo. Aeth i Brifysgol Edinburgh

"yn dlawd iawn, yn unig iawn, a bron yn ddigyfaill," ond enillodd y radd o M.D. yn un ar hugain oed. Siglwyd ef i ddyfnderoedd ei enaid gan y dioddefiadau a welodd yn yr ysbytai. Bu'r sioc gymaint iddo nes peri iddo un dydd redeg allan o'r ysbyty. Penderfynodd beidio â bod yn feddyg ; gwell ganddo fod yn gyfreithiwr. Wedi ail-ystyried pethau penderfynodd mai gwell fyddai lleddfu poen na dianc oddiwrtho. Aeth yn ôl i'r *operating theatre* a'i phoen a'i chreulonder. Ac yn fuan daeth iddo gyfle da i ddilyn ei ymchwil i ddirgelwch poen. Gyda mwyafrif o un bleidlais etholwyd ef yn broffesor *obstetrics* ; golygai hyn amser a chyfleustra i ddarganfod sut i leddfu poen y fam. Diddymu poen oedd ei uchelgais, a breuddwyd a gweledigaeth y dyn ifanc hwn oedd breuddwyd a gweledigaeth awdur *Datguddiad*—"Ac ni bydd poen mwyach."

Balchter i Simpson ydoedd clywed yn 1846 am ddarganfod *ether* yn yr America fel anaesthetig. Ond cyn hir profwyd nad *ether* oedd y moddion gorau at y gwaith. Yr oedd *ether* yn rhy araf ei weithrediad ac yn rhy ansicr ei effaith. Rhaid cael rhywbeth gwell, os yn bosibl. Rhaid parhau i wneud yr experiment arno'i hun ac ar ei gyfeillion, profi effaith y dryg hwn a'r dryg arall, ond ofer y bu'r cyfan. Yna awgrymodd cyfaill, David Waldic, cemegydd yn Lerpwl, iddo dreio clorofform. Gweithredodd ar ei gyngor, a cheisiodd Simpson a dau gyfaill iddo, drwy fisoedd lawer, destio llawer peth peryglus er mwyn darganfod y cyffyr gorau. Ond ni fu llwyddiant hyd un noson enwog—enwog yn hanes y byd.

Y pedwerydd dydd o Dachwedd, 1847 ydoedd. Wedi gorffen gwaith y dydd eisteddai'r tri unwaith eto yn nhŷ Simpson. O fasged y papur wast cymrwyd potel fach o glorofform, wedi ei baratoi ar gyfer yr experiment peryglus gan ei gyfaill yn Lerpwl. Arllwysodd Simpson ychydig o'r botel i las. Gwyddai'n dda na ddylasai ofyn i'w ddau gyfaill gymryd y risc yr un pryd ag ef. Yn fuan iawn gwelodd y ddau gyfaill effaith y clorofform ar Simpson. Gwelwyd ei fod yn cysgu'n dawel, yn hollol anymwybodol. Yna aroglodd ei ddau gyfaill y clorofform, ac yn y fan yr oedd y tri yng nghwsg a chwympodd un ohonynt dan y ford. Y cyntaf i ddihuno, wrth gwrs, oedd Simpson, a deallodd ar unwaith iddo ddarganfod rhywbeth cryfach a gwell nag ether. Profwyd hynny'n wir, oherwydd yn fuan iawn cymrodd clorofform le *ether* drwy'r byd meddygol.

Ni hawliodd Simpson mai ef a ddarganfu clorofform, ond ef oedd y cyntaf i brofi gwerth clorofform fel anaesthetig. A'r cyntaf o bobl y byd i fanteisio ar y darganfyddiad oedd hogyn bach o Ucheldiroedd yr Alban, un na fedrai siarad Saesneg. Aeth drwy driniaeth law-feddygol yn ddiboen, a Simpson ei hun yn rhoddi'r anaesthetig iddo. A'r plentyn cyntaf yn yr holl fyd a anwyd dan ddylanwad hyfryd clorofform oedd merch gwraig Dr. Castain, ac yn briodol iawn bedyddiwyd hi â'r enw "Anaesthesia." Bu farw y

gwron mawr hwn, James Simpson, cyn cyrraedd ei drigain oed, wedi iddo ei anfarwoli ei hun fel y dyn a ddiddymodd hanner poen y byd. Onid teilwng yw o'n teyrnged seml ni?

A gaf i ofyn hen gwestiwn? A gafodd y proffwyd hwn "anrhydedd yn ei wlad ei hun?" Anrhydeddir ef heddiw gan yr Alban a'r byd am ei waith gwir achubol a chrefyddol. Ond pa gynorthwy a gafodd ar law ei gyd-feddygon? Pa gydnabyddiaeth? Pa ddiolch? Dim.

Yn hanes y byd bob tro ceidwadaeth yw gelyn gwelliannau. Traddodiad yw gelyn y gwirionedd. Hen gredo yw amddiffynnydd parod pob anwiredd. Yn ei dywyllwch balch Dyn yw gelyn pennaf Duw. A gredwch chwi hyn? Condemniwyd Simpson a'i ddarganfyddiad dwyfol yn ffurfiol ac yn awdurdodol gan Eglwysi ei wlad. Anodd credu hynny heddiw—ond y mae'n ffaith hanesyddol. Ni dderbyniwyd Simpson gan grefyddwyr ei wlad fel yr hyn yr oedd mewn gwirionedd, sef proffwyd yn llaw Duw, un yn gwneud gwaith Duw ar ddyn. Melltithiwyd ei waith fel gwaith y diafol. Paham? Cyhuddwyd ef gan weinidogion y Crist tyner o fod yn elyn pennaf cynlluniau Duw. Paham? Torrodd ei ddarganfyddiad o drugaredd a chariad ar draws dysgeidiaeth Calfiniaeth gul ei wlad. Nid oedd hawl, meddent hwy, gan unryw ddyn i ymyrryd ag Ewyllys Duw. Oni ddatganodd Duw yn ei "air anffaeledig" fod poen yn *rhan hanfodol* o'i lywodraeth ef? Oni ddywedodd y Creawdwr doeth yn groyw fod *canlyniadau pechod* ein rhieni cyntaf yn rhwym o ddisgyn ar bob mam yn awr fwyaf gyfyng ei hanes? Beth ddywed y Beibl? "Gan amlhau yr amlhaf dy boenau di: mewn poen y dygi blant." Dyna'r drefn ddwyfol, meddai diwinyddion doeth yr Alban, ac y mae Simpson a'i glorofform yn pechu yn erbyn Duw wrth geisio lleddfu poen. Gweithio y mae yn erbyn Duw. Duw sy'n danfon poen—na chwynwch! Duw sy'n eich cosbi—peidiwch â grwgnach! Trowch eich cefn ar ddiwylliant meddwl a darganfyddiadau gwyddonol—a chredwch ni,—ni ddiwinyddion Calfinaidd gwlad dduwiol yr Alban. "Diau mai nyni yw'r bobl, a chyda ni y bydd marw doethineb."

Onid yw'n syndod mawr fod crefydd Iesu Grist ar gael o gwbl yn y byd heddiw, a chofio gweithredoedd anghristnogol Eglwys Crist drwy'r oesau. Eglwys Crist a fu gelyn cryfaf y Crist yn y gorffennol. Gweithred ddieflig oedd gweithred crefyddwyr Caersalem yn croeshoelio'r Crist, ond fe groeshoeliwyd yr un Crist filoedd o weithiau wedi hynny gan Eglwys Crist. Credaf y croesawai'r Crist Syr James Young Simpson, fel un o'i ddisgyblion anwylaf, gan ddweud wrtho, "Yn gymaint a'i wneuthur ohonoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch . . . Deuwch, . . . etifeddwch y deyrnas."

Ymryson y Bysedd.

(Darlledwyd Gorffennaf 1946. Cyhoeddir trwy ganiatâd y B.B.C.)

Gan D. Jacob Dafis, B.A.

Yr ydych wedi sylwi 'rwy'n siwr fod eich bysedd yn gwneud pethau o ran eu hunain yn aml iawn. Ni fyddwch chwi, blant bach da, fyth am ddymchwel y te dros liain gwyn, gorau eich mam. Ni fyddwch chwaith am daro'r llestri dros ymyl y bwrdd na tharo nodyn anghywir ar ganol y wers biano. Yn awr os bydd pethau fel hyn yn digwydd i chwi o hyn ymlaen, fe wyddoch beth i ddweud wrth eich mam. "Nid fi wnaeth e—yr hen fysedd 'ma sy'n ddrwg." Cofiwch nid wyf yn siwr y bydd eich mam yn coelio, oherwydd rhai felna yw mamau, gwaetha'r modd. Ond fe fydd yn gysur gwybod nad arnoch chwi y mae'r bai.

Y mae rhai pobl ffôl, fel mamau a thadau, yn credu mai dim ond y pethau yr ydych chwi am iddynt wneud a wna eich bysedd bob amser, ond camgymeriad mawr yw hynny fel y cewch weld. Y mae pob bys yn ddyn bach ar ben ei hunan, a dim ond sylwi'n fanwl, mae hynny'n eglur. Edrychwch ar eich brawd bach neu eich chwaer fach pan fyddant yn cysgu neu'n hollol dawel, ac fe welwch eu bysedd yn symud yn ôl ac ymlaen, ac ambell waith fe fyddant yn neidio'n ddireidus. Mae hynny'n dangos yn eglur nad yw bysedd yn gwneud sylw yn y byd o'r un sydd piau nhw. A dyna i chwi ddau fodfys mamgu yn chwarae meri-go-round pan fydd hi'n darllen y papur neu'r Beibl hyd yn oed. Yn wir y mae gan fysedd enwau hefyd. Wn i ddim yn iawn beth yw eu henwau yn eich ardal chwi, ond cofiwch ofyn heno cyn mynd i'r gwely. Dyma'r enwau sydd ar fy mysedd i, ac yr wyf am i chwi ddilyn yn ofalus tra byddaf yn eu cyflwyno i chwi.

Yn gyntaf, edrychwch ar eich llaw dde, dyna hi. Yn awr fe ddechreuwn gyda'r bys nesaf atoch, yr hen un tew byr yna sydd ymhellach yn ôl ar eich llaw nac un o'r lleill. Wel, enw hwn yw Bys Bwstyn a'r nesa ato yw Twm Swglyn, yna fe ddilyn Long Harris, Jack Dafis a Wil bach. Dyma nhw unwaith eto, Bys Bwstyn, Twm Swglyn, Long Harris, Jack Dafis, Wil bach. Efallai y carech wybod enwau bysedd y llaw chwith hefyd rhag ofn i rywun ofyn i chwi. Unwaith eto, dechreuwch gyda'r bawd, a dyma nhw, Beni Beni, Cefnder Beni Beni, Beni Babwr, Siencyn Crogwr a'r Bys Bach yn cario'r gwt. Ond nid wyf am i chwi sylwi llawer ar fysedd y llaw chwith heddiw, oherwydd nid ydynt yn bwysig o gwbl. Ac am fysedd traed, wel, beth dda yw'r rheiny wn i ddim, heblaw gwneud tyllau ym mhen blaen eich hosan.

Yn awr nid wyf yn ddyn ' bys-neslyd ' fel rheol, ond un noswaith er mwyn cael dal fy mysedd wrth eu campau, dyma fi yn esgus mynd i gysgu a dechrau chwyrnu a chau fy llygaid. Ac yn wir i chwi, cyn pen dwy chwyrnad dyma Bys Bwstyn yn sefyll i fyny'n syth gan edrych arnaf dros ymyl y cwilt. "Hei," meddai, "Hei bois, mae e wedi mynd i gysgu !" Chwyrnais innau ymlaen yn ddi-daro ac yna gwrandewais ar beth oedd ganddynt i'w ddweud. Wedi gwrando am dipyn deallais beth oedd ganddynt mewn llaw. (Ymadrodd bysedd yw "mewn llaw" gyda llaw).

Mae'n debyg fod dadl boeth wedi bod rhwng y bysedd ers rhai nosweithiau, gan na fedrent setlo p'un oedd y bys pwysicaf. Gan fod Bys Bwstyn yn nes at y llaw nac un o'r lleill, ac felly yn ddoeth-ach o lawer, ef oedd y cadeirydd. Peth arall hefyd, pobl fach dew a stiff sy'n gadeiryddion ymysg dynion bob amser, maent yn llanw'r gadair yn well rywsut. Nid rhyfedd felly eu bod yn gwneud yr un fath yng Ngwlad y Bysedd.

Dechreuodd Bys Bwstyn eto, gan alw am dawelwch yn ei lais bach tew, awdurdodol. " 'Nawr fechgyn, byddwch yn dawel bob un i ni gael mynd ymlaen â'r gwaith. Yr ydym am benderfynu p'un ohonom sydd bwysicaf, felly, fe ddechreuwn trwy ofyn i Twm Swglyn ddweud paham y mae ef yn credu ei fod yn bwysicach na'r lleill." Safodd Twm allan yn syth a dywedodd ei fod yn bywsig am mai ef a ddefnyddir bob amser gan bob un i bwyntio at bopeth. Ef oedd yn pwyntio'r llwybr i ddynion a gollodd y ffordd, ef oedd yn pwyntio at bethau da . . . Ond cyn iddo fynd i hwyl, dyma Long Harris yn codi ac yn dweud, "Cofia di Twm mai diffyg ' manners ' yw pwyntio yn aml. Ti sydd yn pwyntio os bydd plentyn bach wedi bod yn chwarae â'r botel inc yn lle gwneud sym ; ti sy'n gweud mor gas dros y sgwlyn, ' Dere di mas machgen i, 'rwy'n credu fod afalau yn dy boced di ' !" Ar hyn plygodd Twm Swglyn mewn cywilydd ; plygu fydd bysedd yn wneud, nid eistedd wrth gwrs. Dyna ddiwedd y bys bys-neslyd !

"Ond, amdanaf i," aeth Long Harris rhagddo, "Fi yw'r talaf a'r harddaf o'r holl fysedd," a chyda hyn ymestynnodd allan fel plisman nes fod ei ben yn uwch na'r lleill i gyd. Ond yr oedd Twm Swglyn yn barod amdano, "Ie," meddai Twm yn sbeitlyd, "Cofia mai ti sydd a'th ben tal gyntaf ymhob potes hefyd, a chofia mai ti sy'n crafu pennau dynion, ac onid yw hynny yn ddiffyg manners ?"

"Eithaf gwir, eithaf gwir," meddai'r cadeirydd a gorfod i Long Harris druan blygu'n dawel. Daeth tro Jack Dafis wedyn ac fe edrychodd pawb arno, ond yr oedd Jack yn cysgu'n dawel. Hen fys bach dioglyd yw ef, ac ni fydd yn gwneud dim oni fydd eithaf rhaid, heblaw gwisgo modrwy efallai. Gweiddodd Bys Bwstyn arno'r ail waith ond ni wnaeth Jack ddim ond ymestyn a dweud,

"Codi 'nawr mam—aroswch funud !" Aeth yn ôl i gysgu yn hollol fel gwr bonheddig, a daeth tro Wil bach yn naturiol.

Bys bach poleit a moesgar yw Wil bach. Welsoch chwi Mrs. Puw gwraig y gweinidog yn yfed tê yn eich tŷ chwi. Wel, cadwch lygad ar Wil Bach ar ei llaw hi yn ddistaw bach y tro nesaf, ac fe'i gwelwch yn sefyll allan fel rhyw ladi fach ar wahan i'r lleill. Dyna un ffordd o godi'r bys bach, y ffordd orau, a dyna i gyd oedd gan Wil bach i ddweud amdano'i hun.

Sylwais fod Bys Bwstyn yn sefyll yn llonydd ac yn meddwl ers meityn. Yna dechreuodd siarad. "Yr ydych wedi dweud am eich pethau da i gyd yn eich tro ; un yn gallu pwyntio, a'r llall yn dalach a harddach na'r lleill, Jack Dafis yn ŵr bonheddig yn gwisgo modrwy a Wil Bach yn boleit. Gyda llaw, yr wyf finnau yn gadarnach a chryfach na phob un ohonoch, ond wedi meddwl, pethau bach dibwys yw'r rhain i gyd. Ni all Wil Bach godi bag trwm ar ei ben ei hun ; ni all Long Harris ddal iar fach yr haf heb help y lleill, ac ni fedrai Twm Swglyn bwnio'r toes yn y badell, a phwy allai ddal cynffon cath hebddo fi . . . Fe welwch na all yr un ohonom wneud fawr ddim heb y lleill ac felly fy marn bendant yw, ein bod yr un mor bwysig i gyd . . ."

Ar hyn rhoddais chwyrnad fawr ac fe agorais fy llygaid. Credwch fi neu beidio, dyna lle'r oedd Bys Bwstyn, Twm Swglyn, Long Harris, Jack Dafis a Wil Bach yn gorwedd yn dawel ar y cwilt, fel pe bai dim yn y byd wedi digwydd.

Llythyr at y Golygydd.

Annwyl Gyd-Ffyddiwr,—

Rhyw dymor dymuno blwyddyn newydd dda yw hi'n awr, eithr *Canrif Newydd Dda* i'r Ymofynnydd. Tair blynedd y sy er pan ddechreuais dderbyn Yr Ymofynnydd. Caf ef drwy law garedig Dr. D. J. Davies, Caergog, Aberystwyth. Y mae'n ffynhonnell pleser ac adeiladaeth misol i mi. Cyfieithais lawer ohono o dro i dro i'r *Weekly Newsletter* yr wyf yn ei olygu i'n cymdeithas yma.

Gan mai gogleddwr ydwyf, o ddiddordeb arbennig i mi yw'r cyfeiriadau diweddar at ragolygon Undodiaeth yng ngogledd Cymru. Ganwyd a magwyd fi yn nyffryn Ardudwy ar lannau Meirion. Cyn gynted ag y deuthum i feddwl rhywfaint drosof fy hunan, canfum mai Undodwr oeddwn er na wyddwn hynny'n glir am flynyddoedd. Nid oedd gapel Undodaidd o fewn ergyd Big Bertha i'm cartref i, fel y gwyddoch. Nid myfi oedd yr unig lwdn crwydrad o'r gorlan Galfinaidd honno ychwaith o bell ffordd. Yn awr, yr oedd hynny'n agos i ddeugain mlynedd yn ôl. Y mae'r

tir hwnnw wedi gorwedd yn fraenar yn o hir, onid yw? Yn sicr, y mae bellach yn hen barod i'r cnwd.

Y mae un peth yn Yr Ymofynnydd sy'n swnio'n chwithig i mi. Nid beirniadu yr wyf, eithr mynegi chwaeth a theimlad personol gan mwyaf. Cyfeiriaf at y ffasiwn dra chyffredin o ddyfynnu o'r Saesneg gan ysgrifennwyr. Enghraifft—ple un brawd yn rhifyn Tachwedd dros gadw yr iaith Gymraeg yn frith o ddyfyniadau Saesneg. O'm rhan fy hun, pe dyfynnid rhyddiaith gellid yn hawdd ei gyfieithu, ond er nad wyf lenor nac wedi darllen Cymraeg yn eang, daw i'm cof ddyfyniadau o awduron Cymraeg, a ffitiai'r pwrpas cystal os nad gwell. Am y farddoniaeth Saesneg a ddyfynnir gellid, bron ym mhob achos, adrodd o'n "poetau ni ein hunain" i well pwrpas.

Y ffaith drist yw, Mr. Golygydd annwyl, nid ym ni, Gymry, yn gwybod ein llenyddiaeth ein hunain. Credaf fod awdurdodau addysg Cymru i'w beio'n arswydus. Buont yn ddiweledigaeth ac anwybodus, a chollfarnasant genedlaethau o Gymry ifainc i anllythrenniaeth yn ogymaint ag y mae gwir ddiwylliant i'w ystyried.

Nid wyf ŵr coleg. Cefais bedair blynedd mewn ysgol ganolradd. O ben bryncyn gerllaw fy nghartref gallwn weled o fewn dwy neu dair milltir gartrefi'r enwogion hyn—y Gerddi Bluog, cartref Emwnt Prys; y Las Ynys, cartref Elis Wynne; Mochras, cartref Philipiaid anfarwol Ardudwy. Er hynny, ni chlywais i na neb o'm cyfoedion enwau'r cartrefi hyn na'r enwogion a drigiasai ynddynt yn un o'r ddwy ysgol y bum ynddynt. Y tu allan i'r ysgol ac wedi ei gadael y deuthum i, megis drwy hap a damwain, i wybod amdanynt ac am ddim o'u creadigaethau. Duw a'n helpo ni, Gymry truain!

Yn fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol gorfu arnom (er mwyn arholiad a roddai inni nôd rhyw grach-Saeson bychain) ymgodymu â Chaucer—rhyw ŵr a ysgrifennai mewn math ar Saesneg cyn ymsefydlu ohoni fel iaith wâr, lenyddol. Yr oedd yn gas gennym y stwff erthyl. Ond wedi gadael ysgol deellais fod y Chaucer hwn yn cyd-oesi â Dafydd ap Gwilym, ac y gallwn gydag ychydig iawn o ymdrech ddeall Dafydd yn rhwydd. Siaradai fy iaith fy hun, ac yr oedd yn well bardd ganwaith na'r Sais y bum yn ymdrybaeddu'n ei gymdeithas ddieithr ac anhywaith. Druain bach ohonom!

Gedwch inni ysgrifennu Cymraeg i'r Ymofynnydd annwyl. Ein horgan ni, yr Undodiaid Cymreig-Cymraeg, ydyw, a mawr yw ein braint ohono. Gwnawn ef yn fisolyn cenedlaethol, llenyddol, yn ogystal â chrefyddol, ac awn ag ef i'r Gogledd. Y mae'n ddiogel gennyf y caffai groeso yno. Hir oes iddo.

80, Victoria Ave. So., Hamilton, Ontario, Canada. Robert Wynne.

Myfyrdod Dechrau Blwyddyn.

Gan y Parchedig David Evans, Cwmiago.

Onid cymhariaeth hynod o briodol yw'r gymhariaeth Feiblaidd o fywyd dyn i wennol gwehydd? O sylwi ohonom ar wennol gwehydd, gwelwn gyflymed y symud. Dan effaith y grym y tu ôl iddi, boed law ddynol, neu ddwfr, neu ager, neu nwy, neu drydan, prin y medr y llygad carffusaf ei dilyn. Yr un modd y symud bywyd dyn o'i gychwyn yn ei fabandod i'w derfyn yn ei farw. O sôn ohonom am flynyddoedd, neu fisoedd, neu wythnosau, hyd yn oed ddiwrnodau, oni'n tueddir i dybied mai hynod araf yw treigl amser? Hir yw ambell ddiwrnod, yn enwedig i'r segurwyr. Hir yw pob disgwyl, beth bynnag fo'r gwrthrych y disgwylir ei weld. Ddechrau blwyddyn o droi ohonom ein golwg tua'r dyfodol, onid sŵn rhywbeth pell sydd yn yr ymadrodd "diwedd blwyddyn"? Eithr o droi ohonom ein golwg tua'r gorffennol—tros y flwyddyn y sydd wedi terfynu, dywedwn—gyflymed yr aeth deuddeg mis i'r "dragwyddol fodfa." Cyn y medrwn iawn amgyffred buander treigl amser, rhaid inni wrth ddosraniad manach. Yn ôl ein dull ni o siarad, eiliad yw'r dosraniad lleiaf; pan ddeuwn at yr eiliad, ni feddyliwn am fynd ym mhellach. Eithr nid yr eiliad yw'r dosraniad lleiaf posibl o amser. Nid oes enwau i'r dosraniadau nyn, belled ag y gwn i, o leiaf, yn ein hiaith ni. Felly, eu hanwybyddu a wnawn, ac aros gyda'r eiliadau. Onid mynd heibio—llithro o'n gafael—yn gyflym a wnant? Rhuthir ni ymlaen tua'r terfyn gyda phob "tic" o'r awrlais. Da yw inni, yn achlysurol, nid rhy aml, gael ein hatgofio o'r ffaith. Nid eithriad mo dyn, ychwaith, i wrthrychau eraill y cread. Oni ddywed gwyddonwyr mai symud diorffwys a nodwedda'r gronynnau manaf? Dyry'r llinellau a ganlyn fynegiad syml a swynol i'r agwedd hon o'r mater (ni wn pwy oedd eu hawdur; tybiaf imi eu cymryd o *Drysorfa'r Plant* rai blynyddoedd yn ôl):

"'Rwy'n mynd i rywle, mynd o hyd,
A mynd mae popeth fedd y byd;
Mae'r afon fach yn mynd i'r môr,
A'r gwynt yn mynd wrth arch yr Iôr;
Mae'r haul a'r lloer a'r sêr uwchben
Yn mynd yn gyson drwy y nen;
A mynd fel llwythog long mae'r byd,
Er maint ei ferw, maint ei hyd;
'Rwy'n mynd i rywle nos a dydd,
Yng nghwsg ac effro, llon a phrudd;

Pan yn dychwelyd o fy ngwaith
'Rwy'n mynd yn gyflym ar fy nhaith ;
A phan yn eistedd wrth y tân,
I geisio llunio hyn o gân,
'Rwy'n mynd i rywle—ond, pa le ?"

Ie, dyna'r cwestiwn pwysig—i ba le yr ydym yn mynd ? Rhaid i ni ateb gyda'r awdur—

"I bawb mae'n dywyll ond Efe."

Eithr er aml ofyn ohonof—"I ba le yr wyf yn mynd ?"—ni adawaf i'r gofyniad beri imi un blinder oblegid methu ohonof â'i ateb : ei ofyn a wnaf yng ngolau ffydd a gobaith na lafuria un dyn yn ofer a lafurio er daioni.

Anfarwoldeb.

Onid diddorol ydyw cael barn gwŷr a gwragedd goleuedig ar Anfarwoldeb,—pwnc sydd wedi pwslan meddyliau pobl trwy'r oesoedd ? Pan gofiwn nad ydyw *credinwyr* Eglwys Loegr ac enwadau Cymru yn ddim ond *hereticiaid* i gyd yng ngolwg Eglwys Rufain, ac nad ydyw *credinwyr* Rhufain wedyn ond *hereticiaid* Mecca, y mae'n amlwg nag ydyw cyfundrefnau mawrion Crefydd yn bethau y gellir pwyso dim arnynt. Onid dynion, meidrol a ffaeledig fel ninnau, a foldiodd gredoau holl gyfundrefnau eglwysig y byd,—ar gred yn anfarwoldeb yr enaid yn eu plith ? Nid ydyw yn iawn i neb, byth, gredu dim, heb fod profion digonol y tu ôl iddo.

Dechreuaf gyda chyfieithiad trwsgl o Omar Khayyam (tud. 1200 O.C.) :—

"Rhyfedd, onidê, na ddaeth o'r myrdd
Aeth i'r gro trwy amryw ffyrdd
Ddim neb yn ôl ; neb i'n cyfeirio
Ar lwybr y rhaid i ninnau'i deithio."

"Gyrrais f'enaid i ysbïo gwedd
Ac ystyr bywyd, hwnt i'r bedd ;
Yntau a ddywad, pan ddychwel o'i hynt,
Nefoedd ac Uffern, mi fy hunan ŷnt !"

Wedyn, dyma ddyfyniad byr o'r llyfr "Darganfyddiad India," gan y Pandit Nehru :—

"Yn y byd a'r bywyd hwn y mae fy niddordeb i, ac nid mewn unrhyw fyd arall, nac mewn bywyd dyfodol. Pa un a oes y fath beth ag enaid, neu pa un a oes y fath beth a goroesi angau ai peidio, nis gwn ; ac er pwysiced ydyw'r pynciau yna, ni flinant mohonof yn y radd leiaf. Ni effeithiant ar fy mywyd ; a pha un a brofant yn wirioneddol ai peidio, nid ydyw o fawr gwahaniaeth gennyf. Nid ydynt ond dyfaliadau dynion, am randir na ŵyr neb nemawr ddim amdani."

Yn nesaf, wele farn dwy o wragedd galluog :—

"Ewch, a dywedwch, ' Yr wy'n dy garu,' wrth y rhai a gerwch. Y mae'r *tragwyddol ust* gerllaw ; ac yn y man, awn iddo i gyd." —George Eliot (Mary Ann Cross), 1819—1880.

"Pan af i'r bedd, nis gwn i'r lan
A ddof i fyw drachefn ;
Os hûn ddi-ddiwedd fydd fy rhan,
Llwyr fodlon wyf i'r drefn."
Mrs. T. H. Huxley (1825—1914).

Ac wele eto ddau ddyfyniad, un o waith bardd mawr, a'r llall o waith gwyddonydd enwog :—

"Ail-fywyd yma oni chawn,
Mwy fyth o'r bywyd hwn a wnawn ;
Os barnwr Nefol fry nid oes,
I'r barnwr sydd o'n mewn, yn llwyrach ufuddhawn."

"Nid ydyw bywyd pob un ohonom, ar wahân, ond megis gwreichionen o fodolaeth. Eithr fe red bywyd ein hynafiaid yn ôl am fil o filiynau o flynyddoedd. Ac fe bery bywyd ein disgynyddion yn hwy, efallai, na hynny. Ac ni allwn ddweud, gyda phendantrwydd, na bydd i hwnnw, yn wir, barhau am byth."
J. B. S. Haldore (Ganed, 1892).

Cledlyn.

Priodas.

Dydd Mawrth, Rhagfyr 23, yng Nghapel y Bryn, y Parchedigion S. E. Bowen ac E. O. Jenkins yn gweinyddu, DAVID JAMES JONES, Caerau, Llanwenog a JANE SARAH JONES, Castle Green, Cwrtnewydd (gynt o Frynllefrith).

Cyflwr yr Almaen heddiw.

[Cyfrannwyd.]

Onid dyma yr ympryd a ddewisais? . . . Onid torri dy fara a'r newynog a dwyn ohonot y crwydriaid i dŷ, a phan welych y noeth ei ddilladu . . .

YR AIL ESAIA.

Canys bûm newynog, ac ni roisoch imi fwyd : bu arnaf syched, ac ni roisoch imi ddiod : bum ddieithr, ac ni'm dygasoch gyda chwi ; noeth, ac ni'm dilladasoch ; yn glaf, ac yng ngharchar, ac ni ymwelsoch a mi.

EFENGYL MATHEW.

There is no reason that the senseless Temples of God should abound in riches, and the living Temples of the Holy Ghost starve for hunger.

ETHELWOLD, *Esgob Winchester, wrth werthu llestri aur ac arian yr Eglwys yn ystod newyn yn y wlad tua* 980 *A.D.*

Darlun o drueni yw'r Almaen heddiw ar ôl dwy flynedd a mwy o dan Rwsia, Prydain a'r Unol Daleithiau. Adfeilion yw'r dinasoedd a marchnad ddu yw'r wlad o amgylch. Hwyrach fod rhai ohonom yn tueddu i gredu fod amgylchiadau'n prysur wella yno. Nid felly y mae. Gwrandewch : "Y mae naw deg o bob cant o bobl yr Almaen yn gweddïo am i Hitler ddychwelyd yno, am eu bod mewn anobaith a thrueni dygn."

Ymogelwn rhag credu'r papurau dyddiol sy'n dweud fod popeth yn iawn yno ac y gellir prynu rhywbeth yno drwy'r farchnad ddu. Bûm yn siarad ag ambell filwr a fu ar y cyfandir wedi'r rhyfel, a chefais fy siomi lawer tro wrth glywed ganddynt fod pethau'n dda iawn yn y wlad a'r wlad, a minnau'n gwybod yn iawn drwy adroddiadau gwŷr fel Victor Gollancz fod y gwledydd hynny ym mhell o fod yn dda eu byd, bod newyn a thrueni dygn yno.

Am yr Almaen ar ôl dwy flynedd o "heddwch," y mae mwy o angen arnynt nag erioed. Newynu a wnant y gaeaf yma ar y bara, y margarin a'r cig a'r blawd a'r siwgr a ganiateir iddynt. Darn neu ddau o fara sych i frecwast ; ychydig datws neu'r bara sych yn unig i ginio ac i swper y "cawl bondigrybwyll." Diwrnod arall, tafell o fara i frecwast—os bydd rhywfaint ar ôl—y "cawl" i ginio ac ychydig datws gyda'r nos. Dyna fel y buont yn byw yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dyna fel y mae heddiw, a dyna fel y bydd yn ystod y gaeaf sydd i ddod.

A allwn ddychmygu beth olyga hyn i blant bach, i ddynion ieuainc ac i bobl mewn oed sy'n gweithio? Clywyd digon o achwyn yn Lloegr a Chymru ar y "rations" a gawn. Buasai'n

beth da i'r rhai sy'n cwyno orfod byw am dipyn yn yr Almaen. Hwyrach y dysgent weddïo wedyn, yn enwedig y weddi lle y gofynnir am fara beunyddiol.

Dywedir bod gweithwyr yno yn cael mwy o ddogn o fara a chig ond nad yw'r gwahaniaeth yn werth sôn amdano. Er hynny, er lleied y gwahaniaeth, ceir mamau ifainc a hen yn eu lladd eu hunain yn clirio ac yn glanhau brics ynghanol adfeilion y dinasoedd er ennill "cerdyn bwyd y gweithwyr." Ac fe wnant hyn am eu bod yn gweld eu plant yn darfod o angen bwyd.

Yn ffodus, y mae yna "farchnad ddu." Ie, yn ffodus. Oblegid ar wahan iddi hi, ni fuasai llawer ohonynt fyw heddiw. Nid oes dim arall amdani ond marw o newyn. Y mae'r farchnad ddu mewn bri mawr yng Nghymru, fe wn, ond ni fuasai neb farw yma pe na buasai'n bod, neu pe bai rhywun yn gwrthod prynu ynddi. Ond tra phery'r fath brinder bwyd yn yr Almaen, mae'n rhaid wrth y farchnad ddu, pregethu yn ei herbyn neu beidio. Beth wnaem ni mewn amgylchiadau tebyg? "Ni wrendy'r bobl sy'n newynu ar lais rheswm neu gyfiawnder neu weddi," medd hen ddihareb Ladin.

Yn swyddogol, fel yn y wlad hon, y mae'r farchnad ddu yn groes i'r gyfraith, ond dywedir mai rhagrith noeth ydyw hyn gan fod heddgeidwaid yr Almaen yn delio'n helaeth ynddi. Yma eto, "sut y gellir disgwyl iddynt beidio, pan yw eu cyflog mor isel, a'u bwyd mor brin—yn rhy brin i fedru byw arno?"

I'r mwyafrif o'r boblogaeth, er hynny, y mae prisiau'r farchnad ddu yn rhy uchel gyda'r canlyniad bod prynu bara hyd yn oed oddiyno—ar wahan i rywbeth arall—y tu hwnt i'w cyrraedd. Yn hytrach ffeiriant eu hunain—gorff ac enaid, eu dillad sbâr, eu llestri, eu dodrefn, er mwyn cael bwyd. Erbyn heddiw, nid oes dim ar ôl ganddynt i'w werthu. A cheir merched ifainc yn gwerthu eu cyrff am fwyd.

Bu cannoedd farw y gaeaf diwethaf naill ai o newyn neu oerfel. Bu cannoedd mwy farw drwy eu lladd eu hunain. Y gaeaf hwn, yn ôl yr argoelion, bydd llawer mwy farw o'r un pethau, newyn ac oerfel. Bu'n aeaf caled yng Nghymru y llynedd ond gaeafau celyd fel yna a geir yn yr Almaen a'r Cyfandir bob blwyddyn. Dyma ddywed un newyddiadurwr:

"Aeth y gwan yn wannach, y tlawd yn dlotach, yr hên yn hŷn, y dillad yn fwy prin, a'r esgidiau mewn llawer cartref yn ddiwerth. Pan ddaw'r glaw a'r eira a'r oerni, pa obaith sydd ganddynt?"

Ni fydd ganddynt ddillad isaf i newid, nac esgidiau i gadw dŵr. Ni fydd digon o lo—cant yn unig a gafwyd gan rhai teuluoedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dioddef a chyni fydd eu rhan, er cystal y gwaith a wneir gan y Crynwyr, Byddin yr Iechydwriaeth ac eraill i leihau'r dioddef, oblegid ni cheir cymaint o nwyddau a chynt o Loegr a'r America.

"Pe baech chwi yn gweld trigolion Berlin heddiw yn cerdded eu strydoedd, yn welw a swrth eu gwedd ; pe gwelech y plant yn cerdded y stryd yn droednoeth, fel y'u gwelir hefyd pan ddaw'r glaw mewn llawer achos, a'u croen yn unig ar wisg deneu dros asgwrn caled, a'r ystumog ifanc yn barod yn dechreu chwyddo, yn arwydd fod y newyn dieflig yn bygwth . . . Rhaid i chwi eu gweld, cyn y gellwch gredu'r olygfa. Gwraig drigain oed yn gwargrymu gan bwysau y sach ar ei chefn, mam ifanc yn ei charpiau yn ceisio cario tri neu bedwar pecyn a chadw golwg ar ei phlant. Hen ŵr yn methu symud bron gan bwysau y sach y mae'n ei lusgo ar ei ôl, a'r ferch ifanc sy'n ymdrechu'n galed i wthio'r ferfa fregus, lwythog o'i blaen."

Pryder a blinder oedd ar eu hwynebau'n yr haf, â'r pryder a'r blinder yn fwy ymhen ychydig. Ni fydd ganddynt na glo na golau na bwyd. Daw'r gaeaf a'i wynt a'i law a'i eira ; sut fydd hi arnynt heb dô, heb olau, heb fwyd a heb ddim ? "Y mae gan y llwynogod ffauau a chan adar y nefoedd nythod" ond gan bobl yr Almaen nid oes le i osod eu pen i lawr, na thân i ymdwymo na bwyd i'w fwyta.

Oherwydd hynny, ceir nifer y troseddau ymhlith yr ifanc yn cynyddu—ymgrwpia rhai ohonynt fel anifeiliaid gwyllt i hela a lladrata ymborth. Oherwydd hynny, hefyd, yr â'r merched ifainc "i'r stryd wedi'r nos i werthu eu cyrff am sigaret neu ddwy—gall fod yn gymorth iddynt i brynu torth yfory !" A ellir eu beio ? Ef yn unig, a brofodd yr un modd ac a wrthododd droseddu, sy'n alluog i farnu.

Canlyniad arall o gyflwr yr Almaen heddiw yw bod cenhedlaeth o bobl ifainc yn codi heb unrhyw aberth na delfryd iddynt. Gallant fyw yn unig drwy dwyllo a dwyn eiddo rhywun arall. Byw i eraill, medd yr efengyl. Pawb drosto'i hun yw hi yno—fel, yn wir, mewn llawer gwlad arall : ond dyma'r egwyddor sylfaenol sydd yn rhaid wrthi'n yr Almaen o dan y fath amgylchiadau. Ni ellir disgwyl dim arall ond rheol coedwig.

Hawdd ddigon eu barnu a'u beio. Onid dyma'r hyn a haeddir ganddynt am ddilyn Hitler a dwyn cymaint o alanas drwy'r byd ? Clywais lawer yn siarad fel hynyna. Ond yr ydym ni yn proffesu dilyn ôl camrau'r "gŵr gofidus a chynefin a dolur," noddwr y gwan a'r diymadferth, ffrind a chyfaill y sawl a bechodd, dyn y torthau a'r pysgod a charwr gelynion. Gynt, bu'i gyfeillion yn awyddus i gael gwared o dorf o bobl mewn lle anghyfanedd, "fel y gallent fyned i'r trefi, ac i'r wlad oddi amgylch, i letya, ac i gael bwyd." A'i ateb oedd : Rhoddwch chwi iddynt beth i'w fwyta. Dyna ddywedai wrthym ni heddiw yng Nghymru o weld pobl yr Almaen yn newynu.

Mwy na hynny, fe'n hatgofiodd y bydd yn rhaid ini wynebu Duw maes o law, a'i ateb pan ofynnir ini os roisom fwyd i'r newynog,

dŵr i'r sychedig, croeso i'r dieithr, dillad i'r noeth, ac ymweled a'r claf a'r rhai yng ngharchar.

Mae'n wir y gellir dweud y dylai'r Almaenwyr fod wedi gwrthwynebu eu harweinwyr yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf. Condemnir hwynt am hynny. Ond fe'n condemnir ninnau gan haneswyr y dyfodol, yn enwedig yr eglwysi, am fod mor llwfr a diffrwyth o weled y newyn a'r angen mawr yn yr Almaen heddiw. Fe'n condemnir gan Dduw yntau hefyd.

Y mae pob gwlad fawr yn gyfrifol am gyflwr yr Almaen ; yr ydym ni ein hunain yn gyfrifol.

Nid digon gweddïo drostynt. Rhaid eu cynorthwyo ymhob ffordd posibl. Anfonei arian neu ddillad neu barseli bwyd at un o'r cyfeiriadau hyn : Swyddfa Achub Ewrop, Swyddfa'r "Faner," Dinbych ; Friends Relief Service, Friends House, Euston Road, London, W.C.1. Neu ymofyner am fanylion pellach oddi wrth y Golygydd.

Arholiad yr Ysgolion Sul, 1947.

Safon III. Ysgrifenedig.

Enillwyr Gwobrwyon :

Margaret Olwen Thomas, Graig, Llandysul ; James Gwynfor Jones, Llwynrhydowen ; John Morgan Deric Davies, Graig, Llandysul ; Eira Gwen Evans, Graig, Llandysul ; David Ivor Thomas, Graig, Llandysul.

Safon III. Ar Lafar.

Brondeifi : Ceris Jones, Jean Griffiths, John Alun Jones, David John Ieuan Evans.

Graig, Trebanos : Byron Hopkin, Eirion Phillips.

Safon II. Ysgrifenedig.

Enillwyr Gwobrwyon.

Rhiannon Jones, Bwlchyfadfa ; Barbara Warlow, Bwlchyfadfa ; Violet Becket, Bwlchyfadfa ; Caradog Evans, Bwlchyfadfa ; David Peter Davies, Graig, Llandysul.

Safon II. Ar Lafar.

Alltyblacca : Lilian Rees, Derrick Jones.

Capel y Bryn : Ann Davies, Dilwen Davies, Betty Morgans, Irene Jones.

Llwynrhydowen : Betty Jones, Cynthia Evans, Eluned Williams, Mair Mayes, Marian Dudley, Betty Dudley.

Graig, Llandysul : David Jones.

Brondeifi : Samuel Clive James, Vernon Jones, John Wynford Jones, Mary Elizabeth Griffiths, Barbara Ann Jones.

Rhydygwin : Jean Griffiths, Margaret Griffiths.

Ciliau : Hilary Jonathan.

Cribyn : Evan David Nefyn Davies, James Eric Jones, Elizabeth Ann Howells.

Graig, Trebanos : Lawrence Bowen, Caryl Elizabeth Davies, Geoffrey Evans, Ann Cope Thomas, Beverley Thomas, Meirion Williams.

SAFON I. AR LAFAR.

Alltyblacca : Betty Williams, Lena Evans, John Heath, John Bundock, John Walters, Gwendoline Jones, Pauline Williams.

Capel y Bryn : Alun Davies, Eric Jones, Nellie Davies.

Llwynrhydowen : Tom Jones, George Davies, Tom Davies Jones, Wyn Evans, Kenneth Crabbe, Gwynfor Jones, Gwyneth Dudley, Alwyn Davies.

Bulchyfadfa : Betty Evans, May Jones, Sally Jones, Roy Evans, Olga Ansell, Sally Davies.

Graig, Llandysul : Phyllis Desmond, Dulcie Desmond, Margaret Evans.

Capel y Groes : William Roland Davies, James Lynn Davies.

Ciliau : Llinos Lloyd, Anne Jonathan.

Cribyn : Jean Margaret Davies, Betty Aeronwy Davies, Sally Jones.

Graig, Trebanos : David Ayres, Edward Bevan, Lyn Bowen, Marilyn Bowen, Maureen Bowen, Vivian Bowen, Clyden Phillips, Kenyon Phillips, Alan Rogers, Alwyn Thomas, Gareth Williams, Marilyn Williams.

Adroddiad : Cafwyd atebion da iawn yn y gwaith llafar a nifer lled dda yn ymgeisio.

Siomedig oedd nifer yr ymgeiswyr yn y gwaith ysgrifenedig er bod y gwaith a wnaethpwyd yn ganmoladwy. Nid oedd y cwestiynnau yn annodd a gobeithiwn y medrir eu cynnwys yn YR YMOFYNNYDD.

Derbyniwyd gwaith diddorol iawn o Gapel y Graig, Trebanos. Llongyfarchwn y Parch. J. D. Jones ar ei weledigaeth wrth ddwyn agwedd newydd i waith yr Ysgol Sul. Diddorol yw gweld plant bach yn tynnu llun "ffon bugail," Cwpan Ioseff" a'r "tŷ ŷd," yn nosbarth yr ysgol Sul.

J. M. JAMES.
W. D. JONES.

Nodion yr Eglwysi.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Undodaidd, Highgate Hill (gorsaf—Archway), ar y Sul cyntaf a'r trydydd o bob mis am 6 o'r gloch. Yr ydym yn ddyledus i'r pregethwyr canlynol am gymryd ein gwasanaethau yn y misoedd diwethaf—Parchedigion T. Oswald Williams, M.A., J. D. Jones, B.A., B.D., Aubrey Martin, B.A., J. H. Coram Davies, B.A. a S. E. Bowen. Cawsom hefyd anerchiadau diddorol dros ben gan aelodau o'r gynulleidfa mewn dau gwrdd—y cyntaf gan Mr. Jack Lewis ar ei brofiadau yn ystod y rhyfel, a'r llall gan Mr. David Jones, B.A. (ein hysgrifennydd) ar hanes tueddiadau yng nghrefydd y Cymry o amser y Rhufeiniaid hyd y ganrif ddiwethaf. Bu ein cadeirydd hefyd yn cymryd rhai o'r gwasanaethau. Pe medrem gael rhagor o'r aelodau i gymryd rhan yn ein cyfarfodydd byddai llwyddiant ein mudiad yn sicr. Bu'r nifer yn yr oedfaon ar gyfartaledd yn 50 drwy'r hydref a'r gaeaf. Ni chyraeddasom eto ein targed yn ein casgliadau tuag at y Can Mil. Nid hollol foddhaol yw ein sefyllfa ariannol, ond y mae llewyrch ar ein gwasanaethau. Cydymdeimlwn a Mrs. Joyce ar golli ohoni ei mam beth amser yn ôl; cawsom hefyd y pleser o weld bedyddio ei phlentyn yn un o'r oedfaon. Da gweld cynifer o'r aelodau yng nghyfarfod yr L.D.P.A. yng Nghapel Stamford Street ar Ragfyr 16. Yr oedd ysbrydiaeth inni yn y cwrdd hwnnw.

Y NOS.

"Ni phery ddim yn hir
Yn ddu dymhestlog nos,"—
Dyna a gant y bardd
Yn ei delyneg dlos.

Ymaith wrth raid y ffy;
Nid erys, er a fyn
Ei hoelio'a myrdd o sêr
Wrth bared nef yn dyn;
Er rhwymo am ei gwedd
Wregys y gwyntoedd cry',
Ac, eilchwyl, efo'r lloer,
Ei hardd foglymu fry.

Cans gwir a gant y bardd
Yn ei delyneg dlos—
"Ni phery ddim yn hir
Yn ddu dymhestlog nos."

Clydach. G. Ceri Jones.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Gwasg Gomer, Llandysul.